**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

**Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet: 24 Hydref 2017**

**Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym:** Ystyriwyd y mater yma yn fater brys oherwydd gofynion amserlennu prosiect ac yn unol a pharagraff 7.25.2 o Gyfansoddiad y Cyngor a gyda chaniatâd Cadeirydd y Cyngor mae'r penderfyniad yn cael ei eithrio o'r drefn galw i mewn ac yn dod i rym ar dyddiad y cyfarfod a'r penderfyniad.

---

**PWNC**

Eitem 3:MATERION BRYS : GORSAF RHEILFFORDD UCHELDIR CYMRU, CAERNARFON

---

**PENDERFYNIAD**

1. Yn ddarostyngedig i 2 a 3 isod awdurdodi'r Uwch Reolwr eiddo mewn ymghynhoriad â'r Pennaeth Gwasanaeth Cyfriethiol a'r Pennaeth Cyllid i ildio'r gwaharddiad a chyfynghiadau ar werthu bwyd a man werthu yn Les Safle Gorsaf Rheilffordd Ucheldir Cymru, Caernarfon.
2. Fod y premiwm llawn i'w gyfrifo yn unol â thelerau'r Les yn daladwy gan y cwmni am y caniatâd.
3. Dirprwyo'r hawl i'r Uwch Reolwr Eiddo mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Pennaeth Cyllid i gytuno cynllun talu dros gyfnod rhesymol gyda'r tenant petai angen.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae Cais wedi ei dderbyn ynglŷn a Gorsaf Reilffordd Ucheldir Cymru, Caernarfon i'r Cyngor addasu les y safle i ganiatáu defnydd gwerthu bwyd a man werthu a hepgor gofyn ar gyfer premiwm ychwanegol canlynol yn y ddogfen.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Derbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan Cyng. Ioan Thomas gan ei fod yn gadeirydd Ymddiriedolaeth yr Harbwr sydd yn perchnogi tir cyfagos.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet: 24 Hydref 2017** | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **8 Tachwedd 2017** |

## PWNC

Eitem 6:AIL FODELU'R GWASANAETH IEUENCTID

## PENDERFYNIAD

Derbyniwyd yr adroddiad ac yn awdurdodi Pennaeth Economi a Chymuned i gynnal ymgynghoriad ar ffurf y Gwasanaeth Ieuenctid i'r dyfodol, gan adnabod Opsiwn 3 fel yr opsiwn a ffafrir.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Yn dilyn cwblhau Adolygiad o'r Gwasanaeth Ieuenctid sy'n amlygu'r angen i newid, lluniwyd opsiynau ar gyfer ail-fodelu ar gyfer y dyfodol. Cyflwynir yr opsiynau yn yr adroddiad cabinet a gofynnwyd i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a cefnogi'r bwriad i gynnal ymgynghoriad cyn penderfynu'n derfynol.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Derbyniwyd datganiad o fuddiant gan y Cyng. W Gareth Roberts gan fod mab yng nghyfraith yn gweithio i'r Gwasanaeth Ieuenctid.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet: 24 Hydref 2017** | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **8 Tachwedd 2017** |

## PWNC

Eitem 7:DYFODOL DARPARIAETH ADDYSG YN NALGYLCH Y BALA

## PENDERFYNIAD

I gynnal ymgynghoriad statudol yn unol ar Adran 48 Deddf Safonau Ysgolion (Cymru) 2013, yn nalgylch Y Berwyn ar y model a ffafrifir, sef cynnig i gau ysgolion Beuno Sant, Bro Tegid ac Ysgol y Berwyn yn nhref y Bala, a sefydlu Campws Dysgu 3-19, cyfrwng Cymraeg, statws Cymunedol ar safle presennol Ysgol y Berwyn yn weithredol o fis Medi 2019.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Yn dilyn Cabinet y 27 Mehefin penderfynwyd i dynnu'r cynnig yn ôl i sefydlu Cwmpws Dysgu 3-19 Gwirfoddol a Reolir (VC Eglwys yng Nghymru) yn ei ôl. Yn dilyn hyn bydd angon cynnal cyfnod o ymgynghoriad statudol yn unol a Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion ar y cynnig i sefydlu Campws Dysgu 3-19 gyda statws Cymunedol yn nhref y Bala.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Derbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan Cyng. Dilwyn Morgan gan fod ganddo wŷr yn mynychu Ysgol Bro Tegid.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet: 24 Hydref 2017** | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **8 Tachwedd 2017** |

## PWNC

Eitem 8:STRATEGAETH IAITH YSGOLION UWCHRADD GWYNEDD

## PENDERFYNIAD

I fabwysiadu Strategaeth Iaith Uwchradd Gwynedd fel dogfen sydd yn gosod cyfeiriad strategol a disgwyliadau clir i holl ysgolion uwchradd y sir i ddylanwadu'n gadarnhaol ar ddefnydd cymdeithasol disgyblion o'r Gymraeg y tu mewn a thu allan i'r ysgol.

I'r Cynghorwyr Mair Rowlands a Gareth Thomas ysgrifennu at yr Ysgrifenyddion Cabinet perthnasol yn Llywodraeth Cymru yn gofyn iddynt ddarparu'r £120,000 (£40,000 y flwyddyn am dair blynedd 2018/19 – 2020/21) er mwyn ariannu swydd Cydlynydd Strategaeth Iaith Uwchradd Gwynedd i arwain ar gynnydd pellach yn nefnydd cymdeithasol a chwricwlaidd disgyblion o'r Gymraeg. Os na fydd y Llywodraeth yn fodlon ariannu, awdurdodi'r Prif Weithredwr a'r Pennaeth Cyllid i'w ariannu o gronfeydd.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae gwireddu gweledigaeth ac amcanion Strategaeth Iaith Uwchradd Gwynedd wedi ei gynnwys yn Nghynllun y Cyngor 2018-23. Mae angen ymrwymiad o adnoddau ychwanegol dros gyfnod o dair blynedd er mwyn gwireddu amcanion y Strategaeth gan ddarparu cefnogaeth arbenigol I ysgol uwchradd dros y cyfnod. Mae'r swydd wedi ei sylfaenu ar yr ymrwymiad o adnoddau a roddwyd i sefydlu'r Siarter Iaith ysgolion cynradd.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet: 24 Hydref 2017** | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **8 Tachwedd 2017** |

## PWNC

Eitem 9:CYTUNDEB RHWNG AWDURDODAU CYNLLUNIO LLEOL I DDARPARU A CHEFNOGI PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD AR GYFER GWYNEDD A CHYNGOR SIR YNYS MON

## PENDERFYNIAD

Awdurdodi Pennaeth yr Adran Amgylchedd a Phennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol i baratoi a gweithredu Cytundeb rhwng Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Mon er mwyn ailsefydlu'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar gyfer Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Mon yn ffurfiol.

Dirprwyo swyddogaethau'r Cabinet yng nghyswllt y materion y cyfeirir atynt yn rhan 6 yr Adroddiad i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar gyfer Gwynedd a Chyngor Mon.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Ar 7 Mawrth bu i Cabinet Gwynedd gymeradwyo cynnig i barhau i ddarparu Gwasnaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd ar gyfer y ddau awdurdod am bum blynedd pellach. Er mwyn parhau a'r trefniant cydweithio ar gyfer parhau'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio, mae angen ailsefydlu'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd er mwyn parhau i wneud penderfyniadau trawsffiniol ar rai materion penodol.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet: 24 Hydref 2017** | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **8 Tachwedd 2017** |

## PWNC

Eitem 10:CAIS Y FARGEN TWF AR GYFER GOGLEDD CYMRU - DIWEDDARIAD CYNNYDD

## PENDERFYNIAD

- Nodwyd a chefnogwyd cynnydd datblygiad cais y Fargen Twf ar gyfer y rhanbarth.
- Cefnogwyd, mewn egwyddor, y model llywodraethu a ffefrir o Gydbwyllgor Statudol ar gyfer datblygiad pellach gydag adroddiad llawn ar gyfansoddiad a chylch gorchwyl, wedi ei gefnogi gan Gytundeb Rhyng-Awdurdod, i ddilyn nes ymlaen yn y flwyddyn.
- Awdurdodi yr Arweinydd, yn y cyfamser, i fod yn aelod Gwynedd o'r Cydbwyllgor Cysgodol
- Bod yr Arweinydd, fel un o Arweinwyr y chwe Chyngor a gynrychiolir ar Cydbwyllgor Cysgodol, yn cael ei awdurdodi i ddechrau trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig ynglŷn a maint ac amlinelliad cynnwys cais y Fargen Twf, gan nodi na fydd unrhyw ymrwymiadau ariannol nac o fath arall yn cael eu cytuno yng nghamau cyntaf y trafodaethau.
- Dirprwyo'r hawl i'r Prif Weithredwr wneud cyfraniad ariannol cychwynnol o hyd at £50,000 yn 2017/18 ar gyfer paratoi cais am arian o'r Cytundeb Twf
- Nodi fod y Cyngor hwn hefyd yn disgwyl sicrwydd o ran sefydlu Swyddfa Raglen a cael dealltwriaeth o'r strwythur a dull ariannu'r Swyddfa honno pan yn cymeradwyo unrhyw gyfansoddiad / cytundeb.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Bu i'r Cabinet gefnogi'r "Weledigaeth Twf ar gyfer Gogledd Cymru ym mis Medi 2016, s'yn adnabod blaenoriaethau clir ar gyfer datblygu trafnidiaeth ac isadeiledd, sgiliau a swyddi, a thwf ac arloesi busnes. Mabwysiadwyd y strategaeth gan y pus Cyngor arall yn y rhanbarth.

Yn dilyn hyn, mae Gogledd Cymru wedi cael gwahoddiad ffurfiol i ddatblgu stategaeth i fod yn gais ar gyfer y 'Fargen Twf ' i sicrhau buddsoddiad ariannol a throsgwyddo pwerau i'r rhanbarth o Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y deyrnas Unedig.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.